Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Ail Gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol
**Dyddiad: 4 Mehefin 2025, Amser: 1.30y.h. - 3.30y.h.**
**Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | • Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), Dafydd Llywelyn (Cadeirydd)<br>• Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth (SCHTh), Alison Perry<br>• Aelod Annibynnol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Helen Thomas<br>• Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Caroline Wheeler<br>• Aelod o'r Panel Datrysiadau Tu Allan i'r Llys, Davinia Harries-Davies<br>• Llysgennad Ieuenctid, Bradley Cole<br>• Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd / Cynrychiolydd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd |
| **Hefyd yn bresennol** | • Cynghorydd Polisi (SCHTh), Hannah Hyde<br>• Cynghorydd Polisi (SCHTh), Sarah Francis<br>• Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh), Ellen Jones<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol (SCHTh), Sophie Morgan<br>• Cynghorydd Ymgysylltu (SCHTh), Emily Wheeler<br>• Swyddog Cymorth Comisiynu a Phartneriaeth (SCHTh), Anna Bowden |
| **Ymddiheuriadau** | • Prif Swyddog Cyllid (SCHTh), Nicola Davies<br>• Llysgennad Ieuenctid, Kai Collins<br>• Llysgennad Ieuenctid, Alex Molotska |

*Mae'r nodiadau hyn yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a'r camau gweithredu a osodwyd yn ail gyfarfod Pwyllgor Dethol y CHTh.*

## 1. Ymddiheuriadau, cyflwyniadau ac aelodaeth

Rhannwyd ymddiheuriadau a gwnaed cyflwyniadau. Croesawodd y CHTh aelodau newydd i'r Pwyllgor Dethol.

## 2. Cadarnhau Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Dethol ar 7 Mai 2025 fel adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod. Bydd y cofnodion yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan y CHTh.

Trafodwyd y deg cam gweithredu a gymerwyd yng nghyfarfod 7 Mai. Cadarnhaodd y CHTh mai dim ond dau sydd 'ar y gweill'; mae'r ddau'n ymwneud â chynllunio gweithgaredd ymgysylltu. Nodwyd yr holl gamau gweithredu eraill fel rhai 'wedi'u cwblhau' ac fe'u cynhwyswyd ar agenda'r cyfarfod hwn.

### 3. Diweddariad y gweithgor ar dasgau o'r cyfarfod blaenorol

Yng nghyfarfod mis Mai, cododd aelodau'r Pwyllgor Dethol nifer o ymholiadau a gofyn am wybodaeth ychwanegol i'w tywys yn eu proses gwneud penderfyniadau. Yn dilyn y cyfarfod, darparwyd dogfen i aelodau'r pwyllgor yn cyfleu'r wybodaeth berthnasol a'r eglurhad yn unol â'r cais.

Yn ogystal â hyn, rhannwyd data'r Cyfrifiad â'r aelodau, yn cyfleu poblogaeth y bobl 18–25 oed ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â dadansoddiad o'r troseddau a gyflawnwyd gan bobl 18–25 oed.

Cawsant hefyd ddogfen yn nodi arferion gorau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu mewn ardaloedd ledled y DU ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a nodwyd gan y gweithgor. Cymeradwyodd yr aelodau'r gwaith sy'n cael ei wneud ac ailadroddasant bwysigrwydd nodi arferion gorau lleol.

Arweiniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu drafodaeth ar ddata fel a ganlyn: Data o ran ei argaeledd ar aildroseddu a sut y gallai data o'r fath ddangos tystiolaeth o lwyddiant gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a chyfran y troseddau a gyflawnwyd gan bobl 18–25 oed.

**Cam gweithredu 11: Gweithgor i gasglu dealltwriaeth ehangach o ddata aildroseddu a gipiwyd gan ddarparwyr gwasanaethau.**

**Cam gweithredu 12: Gweithgor i ystyried ymhellach gyfran pob math o droseddau a gyflawnwyd gan bobl 18–25 oed, a lleoliad y troseddau.**

**Cam gweithredu 13: Gweithgor i drafod â Heddlu Dyfed-Powys, am ddatblygu proffil problemau am y troseddau a gyflawnrwydd gan bobl 18–25 oed.**

## 4. Tystion arfaethedig a chwestiynau ar gyfer y gwrandawiad cyntaf

Arweiniodd y CHTh drafodaeth ynghylch pwy y dylai'r Pwyllgor Dethol ei wahodd i roi tystiolaeth yng ngwrandawiad cyntaf y Pwyllgor Dethol.

**Cam gweithredu 14: Gweithgor i gwblhau'r rhestr o dystion a dosbarthu gwahoddiadau.**

**Cam gweithredu 15: Gweithgor i gadarnhau'r dull i'w fabwysiadu wrth gyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawiad.**

## 5. Cynllun ymgysylltu

Rhoddodd Cynghorydd Ymgysylltu'r CHTh yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r pwyllgor ar y dull tair rhan i'r gweithgarwch ymgysylltu:

i. Arolwg i bobl ifanc,
ii. Galwad agored am dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd, a
iii. Cyfres o grwpiau ffocws.

**Cam gweithredu 16: Gweithgor i rannu dogfennau ymgysylltu drafft ag aelodau'r Pwyllgor Dethol. Aelodau i ystyried y geiriad a'r dull a rhoi adborth i'r gweithgor.**

## 6. Unrhyw fater arall

Ni chyflwynwyd unrhyw fusnes pellach.

## 7. Camau nesaf

Rhoddwyd crynodeb o gamau nesaf yr adolygiad gan y cadeirydd:

- Bydd y gweithgor yn datblygu'r camau gweithredu a osodwyd yn y cyfarfod hwn.
- Bydd y gweithgaredd ymgysylltu yn cychwyn yng nghanol mis Mehefin.
- Bydd gwahoddiadau i'r gwrandawiad yn cael eu dosbarthu erbyn 13 Mehefin.

Bydd yr amserlen ar gyfer adolygiad y Pwyllgor Dethol yn cael ei diweddaru a'i rhannu ag aelodau.

## 8. Dyddiad y cyfarfod / gwrandawiad nesaf

Bydd y Pwyllgor Dethol yn cyfarfod nesaf ar 25 Mehefin i gadarnhau'r cynlluniau ar gyfer gwrandawiad cyntaf y Pwyllgor Dethol a fydd yn digwydd

wyneb yn wyneb ar y 16 Gorffennaf 2025, 1pm i 5pm. Lleoliad i'w gadarnhau.